YSGOL BRYNREFAIL

Y CLWB DARLLEN

Ar fore dydd Mawrth, yn ddi-ffael, yn ystod y cyfnod cofrestru, y mae'r Clwb Darllen yn ymgynnull yn Llyfrgell Ysgol Brynrefail ac yn fuan clywir dim ond bwrlwm lleisiau isel tra bydd y disgyblion blwyddyn 7 yn darllen llyfrau gyda myfyrwyr blwyddyn 12.

Y mae'r clwb yn rhoi cyfleu euraidd i ddisgyblion blwyddyn 7 ymarfer a chaboli eu darllen yn y ddwy iaith, gan fod sgiliau darllen, yn hanfodol ym mhob pwnc a astudir yn yr Ysgol.

Gwirfoddol yw presenoldeb blwyddyn 12 ond, fel y gwelir o'r lluniau, y mae nifer helaeth o'r flwyddyn yn ffyddlon iawn i'r Clwb ac yn bresennol bob wythnos. Iddynt hwy hefyd y mae sgiliau gwrando, y sgiliau o ddysgu pryd a sut i ymyrryd yn werthfawr dros ben.

Yn trefnu'r cyfan oll mae Mrs Gwenno Bebb o'r adran Gymraeg sydd yn cadw llygad barcud ar y trefniadau.

Yn ystod y flwyddyn Ysgol y mae cyfleu I ni ddangos ein gwerthfawrogiad o waith ac ymroddiad blwyddyn 7 trwy gyflwyno tystysgrifau nid yn unig am eu presenoldeb ffyddlon ond am eu dyfalbarhad i wella eu sgiliau darllen.

Dyma aelodau y Clwb Darllen eleni wedi derbyn eu tystysgrifau gan Mr Dilwyn Roberts, Dirprwy Bennaeth.